Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
# Y Ganolfan Ddinesig
# Port Talbot
# SA13 1PJ

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2017

## gan


## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Ynglŷn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

**Gwybodaeth gefndir**

Mae Castell-nedd Port Talbot wedi'i leoli yn Ne Orllewin Cymru. Cyfanswm poblogaeth Castell-nedd Port Talbot yw 141,588. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal 66 o ysgolion.

Arolygwyd yr awdurdod lleol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2010. Penodwyd y prif weithredwr ym mis Tachwedd 2009 ac mae'r cyfarwyddwr addysg, hamdden a dysgu gydol oes wedi bod yn ei swydd er mis Mai 2013. Mae arweinydd y cyngor wedi bod yn ei swydd er mis Mai 2017 ac mae'r prif ddeiliad portffolio ar gyfer gwasanaethau addysg wedi bod yn ei swydd er mis Mai 2013.

Mae Castell-nedd Port Talbot yn un o chwe awdurdod lleol yng nghonsortiwm rhanbarthol ERW ar gyfer gwella ysgolion.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth arfarnu deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Ystyrir y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi'i nodi isod:

- mae 22.6% o ddisgyblion 5 i 15 oed yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 17.8%, a'r ail uchaf yn gyffredinol
- mae 13.4% o ddisgyblion yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 16.3%
- mae 5.7% o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 10.6%
- mae gan 26.1% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 22.6%
- mae 124 o blant i bob 10,000 yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 95 o blant i bob 10,000

## Crynodeb

At ei gilydd, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cryf dros gyfnod o'u mannau cychwyn isel i'r adeg pan fyddant yn gadael addysg ysgol statudol.  Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn perfformio'n dda.  Fodd bynnag, nid yw perfformiad mewn ysgolion cynradd yn cymharu'n dda â pherfformiad awdurdodau tebyg.

Mae swyddogion yng Nghastell-nedd Port Talbot yn adnabod eu hysgolion yn dda.  Mae ymgynghorwyr her a swyddogiondatblygu athrawon yn gweithio'n briodol mewn partneriaeth ag ysgolion.  Ceir trefniadau defnyddiol i fonitro a herio ysgolion yn unol â'u lefel cymorth a nodwyd trwy'r system gategoreiddio genedlaethol.

Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer sicrhau darpariaeth addysg effeithiol yng Nghastell-nedd Port Talbot.  Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn dda gyda phartneriaid a rhanddeiliaid.  Mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r heriau allweddol sy'n wynebu'r gwasanaeth addysg ac ysgolion unigol.  Fodd bynnag, nid yw swyddogion yn arfarnu eu gwaith yn ddigon da yn gyson ac nid yw'r prosesau ar gyfer rheoli risg yn ddigon trylwyr.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Deilliannau** | **Da** |
| **Ansawdd gwasanaethau addysg** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau mewn ysgolion cynradd

A2 Gwella ansawdd hunanarfarnu, cynllunio gwelliant a rheoli risg ar draws yr holl wasanaethau addysg

A3 Sicrhau bod disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn dilyn llwybrau dysgu addas sy'n eu galluogi i fynd ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant priodol

A4 Cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion rheoli diogelu a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Heb fod mewn categori gweithgarwch dilynol**

Bydd y darparwr yn cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion yn ei gynllun gwella.  Bydd arolygwyr Estyn yn monitro cynnydd yr awdurdod lleol yn erbyn yr argymhellion hyn yn ystod eu hymweliadau cyswllt.

## Prif ganfyddiadau

**Deilliannau: Da**

Mae gan yr awdurdod lleol un o'r lefelau uchaf o amddifadedd yng Nghymru. Pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae gan blant yng Nghastell-nedd Port Talbot fedrau gwannach, fel medrau cyfathrebu, na'u cyfoedion mewn llawer o awdurdodau lleol eraill. Fodd bynnag, o'r man cychwyn isel hwn, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cryf trwy gydol eu haddysg statudol, ac mae eu deilliannau'n dda ar y cyfan erbyn iddynt fod yn 16 oed.

At ei gilydd, mae ysgolion uwchradd yn perfformio'n dda ac mae safonau yng nghyfnod allweddol 4 yn cymharu'n dda â safonau mewn awdurdodau tebyg ledled Cymru. O ganlyniad i ffocws sylweddol ar Saesneg neu Gymraeg mamiaith amathemateg, mae safonau yn y pynciau hyn wedi bod yn gryf am sawl blwyddyn.

Ar gyfer llawer o'r dangosyddion perfformiad allweddol yng nghyfnod allweddol 4, yn nodweddiadol, mae dwywaith cymaint o ysgolion â pherfformiad uchel yng Nghastell-nedd Port Talbot o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, pan gaiff ysgolion eu cymharu â'i gilydd ar sail cyfran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

Fodd bynnag, nid yw ysgolion cynradd yn perfformio mor gryf ag ysgolion uwchradd. Gan ystyried cyfran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, mae deilliannau disgyblion yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cyfran yr ysgolion cynradd a arolygwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot yr oedd angen eu monitro neu a osodwyd mewn categori statudol gweithgarwch dilynol bron ddwywaith yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae dros bum mlynedd wedi mynd heibio ers barnu bod safonau rhagorol mewn ysgol gynradd yn yr awdurdod.

Mae dysgwyr sy'n agored i niwed, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, yn perfformio mwy neu lai yn unol â'r cyfartaledd ar gyfer eu cyfoedion ledled Cymru.

Mae cyfran y bobl ifanc nad ydynt yn parhau mewn addysg ar ôl cyfnod allweddol 4 neu'n mynd ymlaen i gyflogaeth neu hyfforddiant wedi lleihau yn unol â chyfartaledd Cymru yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae'n parhau i fod ymhlith yr uchaf yng Nghymru.

O gymharu ag ysgolion tebyg yn genedlaethol, mae cyfraddau presenoldeb yn ysgolion Castell-nedd Port Talbot wedi bod yn agos at y cyfartaledd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae cyfran y disgyblion sy'n absennol yn barhaus wedi cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae cyfradd y disgyblion sy'n cael eu gwahardd am gyfnod penodol o'r ysgol am bum niwrnod neu lai wedi aros yn eithaf sefydlog, ac yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol, am sawl blwyddyn. Mae cyfradd y disgyblion sy'n cael eu gwahardd am gyfnod penodol o'r ysgol am dros bum niwrnod wedi mwy na haneru yn y blynyddoedd diwethaf, ac yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd cenedlaethol. Er mai nifer fach yn unig o ddisgyblion sy'n cael eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol yn yr awdurdod, mae'r gyfradd wedi bod ymhlith yr uchaf yng Nghymru ers sawl blwyddyn.

Mae arolygiadau ysgol wedi canfod bod bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn ysgolion Castell-nedd Port Talbot. Mae cyfran yr ysgolion ble bernir bod safonau lles yn dda neu'n well mewn arolygiadau dros y tair blynedd ddiwethaf yn cyd-fynd yn fras â'r cyfartaledd cenedlaethol.

At ei gilydd, mae gan blant a phobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot agwedd gadarnhaol tuag at iechyd corfforol, a dangosir hyn gan lefelau uchel o gyfranogiad mewn ystod eang o weithgareddau. Er enghraifft, mae cyfran uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol o leiaf unwaith yr wythnos.

Mae cyfran y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau trwy'r gwasanaeth ieuenctid wedi cynyddu'n ddiweddar, ac mae uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae cyfran y bobl ifanc sy'n cael deilliant achrededig trwy'r gwasanaeth ieuenctid wedi gostwng, ac mae'n is na chyfartaledd Cymru. Nid yw adroddiadau rheoli'r gwasanaeth ieuenctid yn arfarnu effaith ei waith yn ddigon effeithiol, ac felly mae'n anodd nodi'r deilliannau cyffredinol ar gyfer pobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth.

Mae'r cyngor ieuenctid yn gwneud defnydd priodol o ystod eang o bobl ifanc sy'n cynrychioli ysgolion a cholegau, yn ogystal â grwpiau eraill sydd â diddordeb, fel fforwm y bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol a fforwm y plant sy'n derbyn gofal. Fel rhan o'i waith, mae'r cyngor ieuenctid yn cyfarfod ag aelodau etholedig o'r cabinet bob tri mis ac yn gwneud cais i gynghorwyr yn effeithiol ar ran pobl ifanc sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot. Er enghraifft, pan gynigiodd y cyngor adleoli clwb ieuenctid Sandfields i Ganolfan Hamdden a Ffitrwydd Aberafan, gwrthddadleuodd y cyngor ieuenctid yn llwyddiannus y byddai Ysgol Bae Baglan yn lleoliad gwell.

**Ansawdd gwasanaethau addysg: Da**

Mae swyddogion yng Nghastell-nedd Port Talbot yn adnabod eu hysgolion yn dda. Mae ymgynghorwyr her a swyddogion datblygu athrawon yn gweithio'n briodol i fonitro a herio ysgolion yn unol â lefel y cymorth a nodwyd trwy'r system gategoreiddio genedlaethol. Mae adroddiadau ymgynghorwyr her yn darparu arfarniad manwl o safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth ar gyfer pob ysgol. Fodd bynnag, ychydig iawn o adroddiadau sy'n arfarnu ansawdd y ddarpariaeth feithrin neu'r cynnydd a wna'r plant ieuengaf trwy'r blynyddoedd cynnar. Mae ansawdd adroddiadau cyn-arolygiad a ddarparwyd gan yr awdurdod wedi gwella dros y tair blynedd ddiwethaf, er bod eu barnau ar safonau, addysgu ac arweinyddiaeth yn fwy cadarnhaol ar y cyfan na deilliannau arolygu dros yr un cyfnod.

Mae'r cytundeb partneriaeth yn amlinellu'n glir gyfrifoldebau priodol yr awdurdod, y cyrff llywodraethol a'r ysgolion. Yn gyffredinol, mae ymgynghorwyr her yn nodi ysgolion sy'n tanberfformio mewn modd amserol. Pan fo'n briodol, mae'r awdurdod yn defnyddio'i bwerau statudol llawn yn effeithiol. O ganlyniad, mae llawer o ysgolion sy'n tanberfformio wedi gwella agweddau ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yn briodol.

Mae ymgynghorwyr her yn gosod argymhellion pwrpasol i ysgolion eu hystyried. Maent yn adolygu'r rhain yn briodol yn ystod ymweliadau dilynol ac yn nodi unrhyw gamau a gwblhawyd. Maent hefyd yn cyfeirio arweinwyr ysgol at gyfleoedd dysgu

proffesiynol sy'n cefnogi blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau perthnasol a ddarperir gan y consortiwm rhanbarthol. Mae hyn yn helpu arweinwyr ysgol i gyflawni eu rolau'n fwy effeithiol.

Mae'r awdurdod yn darparu ystod eang o ddata perfformiad defnyddiol ar gyfer arweinwyr a llywodraethwyr ysgol i gefnogi hunanarfarnu. Yn ychwanegol, mae ymgynghorwyr her yn rhoi arweiniad defnyddiol i arweinwyr ysgol i gryfhau eu dulliau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae'r awdurdod wedi rheoli recriwtio llywodraethwyr yn dda. Mae'n cefnogi datblygiad medrau cadeiryddion a llywodraethwyr eraill trwy hyfforddiant effeithiol.

Mae'r awdurdod yn darparu ystod eang o wasanaethau cymorth sy'n hyrwyddo cynhwysiant ac yn bodloni anghenion dysgwyr sy'n agored i niwed yn dda. Mae wedi ailstrwythuro ei wasanaethau cynhwysiant fel eu bod yn canolbwyntio'n gliriach ar wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed. Mae staff gwella ysgolion a staff gwasanaethau cynhwysiant yn dechrau gweithio gyda'i gilydd yn dda. O ganlyniad, gall ysgolion fodloni anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rheiny sydd mewn risg o gael eu gwahardd yn well. Mae gan ysgolion a'r rhan fwyaf o randdeiliaid allweddol ddealltwriaeth dda o weledigaeth yr awdurdod ar gyfer addysg gynhwysol. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn rhannu'r wybodaeth hon gyda rhieni a gofalwyr yn ddigon da, er enghraifft trwy ei wefan.

Mae'r awdurdod wedi gwneud trefniadau buddiol i feithrin gallu ysgolion prif ffrwd i nodi a bodloni anghenion dysgu ychwanegol (ADY) disgyblion. Mae cyfarfodydd clwstwr ADY yn effeithiol o ran galluogi'r awdurdod i nodi anghenion hyfforddi, monitro gwariant a herio tanberfformio mewn meysydd darpariaeth. Mae'r awdurdod wedi darparu ystod eang o gyfleoedd hyfforddi sy'n helpu i ddatblygu medrau, gwybodaeth a hyder staff sy'n gweithio mewn lleoliadau prif ffrwd a lleoliadau arbenigol.

Ceir trefniadau clir ar gyfer nodi ac asesu anghenion plant cyn-ysgol sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r trefniadau pontio a sefydlwyd yn ddiweddar ar gyfer y plant hyn o leoliadau gofal plant Dechrau'n Deg yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad defnyddiol i ysgolion am anghenion unigol pob plentyn. Mae cydweithio effeithiol rhwng partneriaid addysg ac iechyd yn sicrhau eu bod yn bodloni anghenion cymhleth dysgwyr yn dda, fel y rheiny ag anawsterau synhwyraidd a lleferydd ac iaith.

Mae'r awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol yn briodol o ran dysgwyr ag ADY. Fodd bynnag, dros y tair blynedd ddiwethaf, mae wedi cyhoeddi lleiafrif yn unig o ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig o fewn graddfeydd amser statudol. Er gwaethaf hyn, mae'r awdurdod wedi cysylltu'n agos iawn â rhieni a gofalwyr i leihau nifer yr apeliadau i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

Mae'r awdurdod yn bodloni anghenion disgyblion o grwpiau ethnig lleiafrifol, plant sy'n derbyn gofal a'r gymuned sipsiwn a theithwyr yn dda. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth sipsiwn a theithwyr yn ennyn diddordeb dysgwyr a'u teuluoedd mewn addysg yn llwyddiannus, ac mae'n cefnogi trosglwyddo i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae’r awdurdod wedi newid ei ymagwedd at y cymorth ar gyfer lles ac ymddygiad. At ei gilydd, mae swyddogion wedi gweithio’n dda gydag ysgolion i leihau nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol, yn enwedig y rheiny sy’n para chwe diwrnod neu fwy. Mae’r broses ar gyfer symudiadau rheoledig a’r cyfarfod ymateb cyntaf i waharddiadau parhaol yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar leihau nifer y gwaharddiadau parhaol ar draws yr awdurdod. Mae’r awdurdod yn rhoi arweiniad addas i ysgolion ar ddefnyddio cynlluniau cymorth bugeiliol. Fodd bynnag, nid yw’r awdurdod yn monitro’r defnydd o’r cynlluniau hyn yn ddigon da.

Mae newidiadau i ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol wedi bod yn llwyddiannus o ran gwneud yn siŵr bod bron pob disgybl yn elwa ar lwybr dysgu addas mewn lleoliad priodol. Fodd bynnag, mae’n rhy gynnar i arfarnu effaith y newidiadau hyn ar wella deilliannau ar gyfer dysgwyr mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.

Mae gan yr awdurdod strategaeth bresenoldeb addas ac mae’n defnyddio’i ystod o strategaethau a phwerau ymyrraeth yn gymesur. Mae’r ffaith fod swyddog lles ychwanegol wedi cael ei benodi’n ddiweddar, sy’n gweithio’n uniongyrchol gyda disgyblion sy’n absennol o’r ysgol yn barhaus, wedi helpu gwella presenoldeb y disgyblion hyn.

Mae gan yr awdurdod bolisi clir a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu dysgwyr. Mae’r trefniadau’n bodloni gofynion ar y cyfan. Fodd bynnag, nododd arolygwyr rai meysydd lle nad oedd yr awdurdod yn monitro’n ddigon trylwyr pa mor dda y mae ei ysgolion a gwasanaethau addysg eraill yn cyflawni eu dyletswyddau diogelu. Daethpwyd â’r rhain at sylw uwch arweinwyr yn ystod yr arolygiad.

Mae’r awdurdod yn darparu ystod werthfawr o wasanaethau ar gyfer teuluoedd â phlant sydd islaw’r oedran ysgol statudol. Er enghraifft, mae staff Dechrau’n Deg yn gweithio’n llwyddiannus gyda theuluoedd sydd â phlant o dan bedair oed i gyflwyno rhaglenni sy’n datblygu medrau rhieni ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ifanc wella eu medrau siarad a gwrando a chynorthwyo eu cyfnod pontio i’r ysgol. Mae staff Dechrau’n Deg yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ysgolion am fedrau disgyblion wrth iddynt ddechrau yn y dosbarth meithrin.

Mae strategaeth chwarae’r awdurdod yn llwyddiannus o ran hyrwyddo pwysigrwydd chwarae gyda phlant ifanc. Er enghraifft, mae arweinwyr chwarae yn darparu adnoddau y gall teuluoedd eu benthyca i helpu ennyn diddordeb eu plant mewn gweithgareddau chwarae sy’n datblygu medrau cymdeithasol a dysgu plant.

Mae cynlluniau’r awdurdod i ad-drefnu ystâd yr ysgol wedi bod yn llwyddiannus o ran lleihau nifer y lleoedd ysgol dros ben. Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, mae swyddogion ac aelodau etholedig wedi gwneud penderfyniadau addas sydd wedi arwain at agor ysgolion newydd a chau ac uno ysgolion eraill. Mae swyddogion wedi mabwysiadu ymagwedd strategol bwrpasol at y rhaglen ad-drefnu ac mae eu cynlluniau’n sicrhau bod gan bron bob disgybl leoedd mewn ysgolion o’u dewis.

Mae’r awdurdod wedi ymgynghori’n dda ar ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020, ac mae wedi gwneud ymrwymiadau clir i wella darpariaeth ysgolion uwchradd, er enghraifft i sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3 -18 oed yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol ac ysgol 11-16 yn y de. Fodd bynnag, mae lleoliad presennol y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y sir yn golygu nad

yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yr un mor hygyrch ar draws yr awdurdod, ac o ganlyniad, mae costau cludo disgyblion yn uchel. Nid yw'r awdurdod yn ddigon rhagweithiol o ran asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r awdurdod yn gweithio'n dda gyda'i bartneriaid i ddarparu cyfleoedd addysgol llwyddiannus ar gyfer disgyblion dros 16 oed. Er enghraifft, mae rhaglen 'Seren' yn helpu codi dyheadau disgyblion mwy abl trwy gefnogi eu ceisiadau i'r prifysgolion mwyaf blaenllaw. Mae cysylltiadau cryf â Choleg Castell-nedd Port Talbot yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu dilyn cyrsiau perthnasol sy'n gweddu i'w hanghenion yn dda.

Mae swyddogion yn sicrhau bod cyfleoedd da i ofyn am farn pobl ifanc ar draws yr awdurdod. Er enghraifft, maent wedi gofyn i ddisgyblion am eu barn ar ysgolion newydd ac ar ansawdd meysydd chwarae yn eu cymuned.

Mae darpariaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid yr awdurdod wedi newid yn sylweddol yn ddiweddar. O ganlyniad, mae gwasanaethau ieuenctid wedi defnyddio dull mwy targedig i helpu cynorthwyo pobl ifanc sy'n agored i niwed a chadw gwaith ieuenctid mewn darpariaeth gymunedol. Mae swyddogion yn casglu ystod o ddata a gwybodaeth am y gweithgareddau hyn. Fodd bynnag, nid ydynt yn eu defnyddio'n effeithiol i arfarnu beth sy'n gweithio'n dda neu ba agweddau ar ddarpariaeth y gwasanaeth sy'n llai llwyddiannus.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer sicrhau darpariaeth addysg effeithiol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn dda gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ar draws yr awdurdod. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r heriau allweddol sy'n wynebu'r gwasanaeth addysg ac ysgolion unigol. Mae'r rhan fwyaf o'r prif gryfderau a meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr adroddiad yn ymddangos yn hunanarfarniad y gyfarwyddiaeth ei hun.

Mae'r arweinydd, y prif weithredwr, yr aelod cabinet dros addysg ac uwch swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i arwain gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn dda. Mae'r cynllun corfforaethol yn dangos ymrwymiad clir y cyngor i wella addysg, ac un o'i dri phrif amcan yw 'gwella lles plant a phobl ifanc'. Mae'r cynllun corfforaethol yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol yn dda, gan gynnwys Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n rhoi ystyriaeth dda i anghenion lleol plant a phobl ifanc.

Mae ystod gynhwysfawr o gynlluniau gwasanaeth a thîm yn cefnogi cynllun y gyfarwyddiaeth addysg yn dda. Mae defnyddioldeb y cynlluniau hyn yn amrywiol gan nad yw camau gweithredu bob amser yn ddigon penodol ac ni chaiff adnoddau eu nodi'n ddigon da. Hefyd, mae meini prawf llwyddiant yn aml yn amhriodol, wedi dyddio neu'n cynnwys targedau anghyson ar draws gwahanol gynlluniau.

Mae gan yr awdurdod systemau defnyddiol ar waith i fonitro ac arfarnu ei waith ac mae'n defnyddio ystod o offer buddiol i gefnogi hyn. Mae ganddo wybodaeth dda am ddysgwyr a gwasanaethau addysg. Fodd bynnag, nid yw swyddogion yn arfarnu eu gwaith yn ddigon da yn gyson, er enghraifft wrth ddefnyddio system cerdyn adrodd yr awdurdod.

Mae uwch arweinwyr yn herio rheolwyr yn dda a rheolaidd am feysydd a nodwyd i'w gwella. Mae'r broses hon yn helpu lleihau effaith unrhyw ddiffygion yn y broses cynllunio gwelliant ac mae'n sicrhau bod yr awdurdod yn parhau i wella'i wasanaethau. Mae'r awdurdod wedi mynd i'r afael â'r argymhellion o'i arolygiad blaenorol yn 2010 i raddau helaeth.

Mae ymgysylltu pwrpasol â phartneriaid, sy'n seiliedig ar berthnasoedd cadarnhaol a chyfathrebu da, hefyd yn nodwedd o arweinyddiaeth yn y gwasanaeth addysg. Mae hyn yn cyfrannu at ethos tîm cadarnhaol yn lleol sy'n helpu cyflawni gwelliannau. Er enghraifft, mae gweithio cryf mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill a'r bwrdd iechyd lleol yn galluogi'r awdurdod i ddarparu ystod o wasanaethau cymorth i hyrwyddo lles dysgwyr yn effeithiol, yn enwedig dysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio ag addysg. Fel arfer, mae'r awdurdod yn gofyn barn rhanddeiliaid, fel penaethiaid, rhieni ac asiantaethau allanol, ac yn rhoi ystyriaeth dda i'w barn, wrth adolygu ac ystyried newid neu gau gwasanaethau neu ysgolion. Yn benodol, mae gan yr awdurdod ddiwylliant sefydledig o wrando'n ofalus ar farn plant a phobl ifanc, ac ystyried eu barn.

Mae'r awdurdod wedi cryfhau trefniadau craffu ac mae aelodau etholedig yn dechrau defnyddio'r system graffu i herio swyddogion yn briodol. Yn gyffredinol, mae adroddiadau i aelodau etholedig yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, ac yn yr enghreifftiau gorau, maent yn cynnwys arfarniadau gwerth chweil. Mae'r rhain yn cynorthwyo aelodau i gydnabod beth sy'n gweithio'n dda ac yn eu helpu i nodi camau gweithredu perthnasol ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae rhai adroddiadau'n portreadu darlun rhy hael o ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau, er enghraifft yr adroddiad diweddar ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae panelau ymholi a gweithgorau yn cefnogi'r Pwyllgor Craffu ar Addysg, Sgiliau a Diwylliant yn briodol. Mae'r trefniadau hyn wedi cynyddu nifer yr aelodau etholedig sy'n craffu i edrych ar themâu ar draws ystod o wasanaethau perthnasol. Mae defnydd yr awdurdod o graffu yn cynnwys adolygu a herio datblygiad polisi, yn ogystal â phenderfyniadau cabinet, ac mae ganddo flaenraglen waith addas.

Nid yw prosesau'r awdurdod ar gyfer asesu risg yn nodi'n ddigon manwl ystod ddigon eang o risgiau allweddol sy'n gysylltiedig ag addysg, fel y trefniadau ar gyfer gweithio rhanbarthol. Pan fyddant yn nodi risgiau, nid yw'r gofrestr risg yn cynnwys digon o fanylion am y modd y bydd yr awdurdod yn mynd i'r afael â'r risg.

Ar draws yr awdurdod, mae staff yn dangos ymrwymiad cryf i ddysgu proffesiynol er mwyn diweddaru eu gwybodaeth a'u medrau yn eu meysydd cyfrifoldeb eu hunain. Mae arweinwyr yn nodi anghenion hyfforddi staff yn rheolaidd fel rhan o'r gweithdrefnau rheoli perfformiad parhaus. Mae staff yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag ystod eang o rwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn dysgu oddi wrth awdurdodau eraill, a rhannu eu harfer dda eu hunain. Caiff y gweithgareddau hyn effaith gadarnhaol ar wella'r ddarpariaeth yn yr awdurdod, ac maent yn annog staff i fyfyrio ar ansawdd eu gwaith.

Mae dysgu proffesiynol yn gweddu i anghenion adrannau'n dda, er enghraifft o ran datblygu strategaethau i gefnogi cynhwysiant. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddatblygu medrau unigolion. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys sicrhau bod swyddogion yn gallu datblygu eu medrau arwain a chysgodi swyddi eraill, fel

rhan o gynllunio olyniaeth. Fodd bynnag, nid oes gan yr awdurdod strategaeth drosfwaol sy’n cysylltu dysgu proffesiynol â hunanarfarnu neu nodau eang y gyfarwyddiaeth. O ganlyniad, ni all arweinwyr arfarnu’n llawn y cyfraniad y mae dysgu proffesiynol swyddogion yn ei wneud at wella deilliannau ar gyfer dysgwyr.

Mae’r awdurdod wedi gwella’r integreiddio rhwng ei gynllun ariannol yn y dyfodol a’i brosesau cynllunio corfforaethol. Fodd bynnag, mae cysylltiadau rhwng cynlluniau gwasanaethau unigol a chynlluniau ariannol yr awdurdod wrthi’n cael eu datblygu o hyd.

Mae’r awdurdod yn cefnogi ei wasanaeth addysg yn dda trwy ei brosesau gosod cyllideb, gan flaenoriaethu addysg ble bynnag y bo modd. Cynyddodd y gyllideb ysgolion gros ar gyfer 2017-2018 yn fwy na chyfartaledd Cymru. Yn ychwanegol, mae’r awdurdod lleol wedi dyrannu adnoddau’n dda i’w flaenoriaethau strategol, fel y rhaglen gwelliant strategol ysgolion. Yn ystod 2017-2018, mae’r awdurdod yn bwriadu gwario mwy fesul disgybl ar addysg na chyfartaledd Cymru.

Er bod cyfradd ddirprwyo’r gyllideb ysgolion ar gyfer 2017-2018 yn is na chyfartaledd Cymru, mae hyn yn adlewyrchu’n briodol y ffaith fod rhai meysydd yn cael eu cyflwyno’n ganolog, fel cludiant o’r cartref i’r ysgol a’r gwasanaeth ADY.

Mae’r awdurdod yn cydnabod bod gan rai gwasanaethau gostau uchel, er enghraifft mae costau o’r cartref i’r ysgol yn uchel er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni dewisiadau rhieni yn unol â’r polisi lleol. Mae’r awdurdod yn mynd i’r afael â’r gost uchel hon trwy ystyried gwahanol ddarparwyr a chynnwys costau cludiant mewn trafodaethau am ad-drefnu .

Mae rheolaeth gyllidebol o fewn y gwasanaeth addysg yn effeithiol. Mae swyddogion yn dadansoddi ystod eang o ddata ar gyllid ysgolion yn dda. Mae’r dadansoddiad hwn, ynghyd â chyfarfodydd rheolaidd gyda phenaethiaid a llywodraethwyr, yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion ariannol mewn ysgolion.

Mae’r awdurdod yn darparu her addas i ysgolion sydd â diffyg yn eu cyllideb. Mae’n trafod cynlluniau adfer priodol ar gyfer y tymor byr gyda’r ysgolion hyn. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi llwyddo i leihau’r diffygion hyn mewn cyllidebau yn gyson.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran38 Deddf Addysg1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/03/2018